2026

# Addysgu a Dysgu Cynhwysol: Addasiadau Safonol a Chanllawiau sy'n Gysylltiedig ag Anableddau

Y TÎM LLESIANT A CHYNWYSOLDEB

# Tabl Cynnwys

Rhagarweiniad ..... 2
Addasiadau i'w Hystyried fel Ymarfer Safonol ar gyfer Addysgu a Dysgu Cynhwysol ..... 3
Strwythur a disgwyliadau'r cwrs ..... 3
Deunyddiau addysgu a'r dull cyflwyno ..... 3
Asesu a sgiliau academaidd ..... 3
Dysgu ar-lein a rhyngweithiol ..... 3
Cefnogi myfyrwyr a chyfathrebu â myfyrwyr ..... 4
Sesiynau ymarferol, teithiau maes ac astudio dramor ..... 4
Adborth ..... 4
Argymhellion Addasu yn ôl Anabledd ..... 5
Myfyrwyr gyda Gwahaniaethau Dysgu Penodol ..... 5
Myfyrwyr â Chyflwr Sbectrwm Awtistig (CSA) ..... 6
Myfyrwyr â chyflwr iechyd meddwl fel iselder ysbryd neu orbryder ..... 7
Myfyrwyr ag amhariad ar eu clyw ..... 7
Myfyrwyr ag amhariad ar eu golwg ..... 8
Arwyddion y gallai Myfyrwyr fod yn Dechrau Cael Anhawster ..... 9
Nodyn i Gloi ..... 9
Adnoddau Defnyddiol a Chyfeiriadau at Ddogfennau ..... 10


# Rhagarweiniad

Yn y flwyddyn academaidd 2025/26, mae gan 27.5% o fyfyrwyr Prifysgol Bangor Gynllun Cefnogi Dysgu Personol (PLSP), ac mae tueddiadau cenedlaethol yn dangos bod y gyfran hon yn debygol o barhau i dyfu. Wrth i'r niferoedd gynyddu, gall diwallu anghenion myfyrwyr drwy addasiadau unigol yn unig roi pwysau sylweddol ac anghynaladwy ar staff academaidd.

Bwriad y canllawiau hyn yw cefnogi staff academaidd i ymgorffori dulliau cynhwysol yn eu hymarfer addysgu bob dydd, gan leihau'r angen am addasiadau adweithiol, unigol drwy fynd i'r afael â rhwystrau cyffredin ar lefel cwrs a modiwl. Mae hefyd yn ceisio grymuso cydweithwyr i wneud addasiadau lleol gwybodus a chymesur lle mae angen cefnogaeth unigol ychwanegol, gan ddefnyddio barn broffesiynol ochr yn ochr â deialog â myfyrwyr a gwasanaethau cefnogi. Gall ymgorffori'r arferion a amlinellir yn y ddogfen hon helpu i greu amgylcheddau dysgu mwy hygyrch a chyson i bob myfyriwr, gan leddfu straen llwyth gwaith a chefnogi safonau academaidd uchel.

Mae'r tabl isod yn dangos ystod ac amlder yr anableddau ymhlith poblogaeth myfyrwyr 2025/26 y cyfeirir atynt yn y canllawiau hyn. Fe'i bwriedir fel gwybodaeth gyd-destunol i gefnogi staff academaidd i ddeall anghenion addasu cyffredin ar draws y Brifysgol.

| Anabledd | Nifer |
|---|---|
| Anhawster Dysgu Penodol | 1273 |
| Syndrom Asperger / Sbectrwm Awtistig | 375 |
| Iechyd Meddwl | 796 |
| Dall / amhariad ar y golwg | 26 |
| Byddar / amhariad ar y clyw | 44 |



# Addasiadau i'w Hystyried fel Ymarfer Safonol ar gyfer Addysgu a Dysgu Cynhwysol

Mae addysgu cynhwysol o fudd i bob myfyriwr, nid yn unig y rhai sydd ag anghenion cefnogaeth hysbys.
Dylid trin yr addasiadau isod fel ymarfer academaidd safonol i leihau rhwystrau, gwella ymgysylltiad, a chefnogi gwahanol ffyrdd o ddysgu. Mae ymgorffori'r camau gweithredu hyn yn golygu bod Prifysgol Bangor yn cyd-fynd ag argymhellion gan Hawliau Anabledd y Deyrnas Unedig a'r Comisiwn Myfyrwyr Anabl ac yn helpu i greu amgylchedd dysgu mwy hygyrch a chefnogol i bawb.

## Strwythur a disgwyliadau'r cwrs

- Rhowch drosolwg clir o strwythur y cwrs, gan gynnwys dolenni i bynciau a sesiynau.
- Eglurwch yn glir ddeilliannau'r cwrs a sut mae asesiadau'n gysylltiedig â nhw.
- Ar ddechrau pob sesiwn, esboniwch beth i'w ddisgwyl a sut y gall myfyrwyr gymryd rhan, yn enwedig wrth ddefnyddio gwahanol offer dysgu.

## Deunyddiau addysgu a'r dull cyflwyno

- Recordiwch bob darlith gyda chapsiynau byw wedi'u galluogi a storiwch recordiadau mewn lleoliad cyson ar Blackboard. Cyfeiriwch at y canllawiau i staff ar gyfer [Adnoddau Blackboard i Staff].
- Caniatewch recordiadau sain personol o sesiynau.
- Darparwch ddeunyddiau darlith ymlaen llaw - gan gynnwys sleidiau, astudiaethau achos, a'r deunydd darllen sy'n ofynnol.
- Defnyddiwch ddyluniad gweledol clir a hygyrch: cyferbyniad cryf ar fyrddau gwyn a sleidiau; dylid osgoi lliwiau ffont coch, gwyrdd a lliwiau ysgafnach.
- Yn ystod y dull cyflwyno, gadewch wybodaeth ar y bwrdd i ganiatáu digon o amser copïo.
- Lle bo modd, dylid darparu dogfennau a roddir ar Blackboard ar fformat Word i gefnogi'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol i ddarllen testunau.
- Darparwch restrau darllen cyfeiriedig a blaenoriaethol, gan ei gwneud hi'n glir beth sy'n hanfodol a beth sy'n ddewisol.
- Darparwch restr termau a geirfa lle bo'n briodol.

## Asesu a sgiliau academaidd

- Cynigiwch gyngor clir ar aseiniadau, traethodau a disgwyliadau ymchwil.
- Darparwch addasiadau asesu yn y dosbarth fel yr amlinellir yng Nghynllun Cefnogi Dysgwyr Personol y myfyrwyr.

## Dysgu ar-lein a rhyngweithiol

- Yn ystod sesiynau ar-lein, caniatewch i fyfyrwyr gyfrannu drwy'r nodwedd 'chat' yn lle siarad.

## Cefnogi myfyrwyr a chyfathrebu â myfyrwyr

- Trefnwch i gwrdd â myfyrwyr i drafod anghenion cefnogaeth unigol a chadwch y sgwrs i fynd.
- Cadwch mewn cysylltiad rheolaidd i nodi problemau'n gynnar a chytuno ar atebion ymarferol.
- Defnyddiwch gyfathrebu agored, dwyffordd fel y prif ddull o sicrhau arferion addysgu cynhwysol a hygyrch.

## Sesiynau ymarferol, teithiau maes ac astudio dramor

- Byddwch yn ymwybodol bod gan fyfyrwyr hawl i'r un lefel o addasiad a chefnogaeth ar draws pob cyd-destun dysgu.
- Sicrhewch fod myfyrwyr yn gallu cael mynediad at gefnogaeth briodol gan bobl lle bo angen. Efallai y bydd angen mwy o gymorth arnyn nhw mewn amgylchedd anghyfarwydd.
- Trefnwch gefnogaeth ymlaen llaw.
- Osgowch ofyn i fyfyrwyr eraill roi cefnogaeth, gan y gall hyn roi cyfrifoldeb annheg ar gyfoedion a lleihau annibyniaeth; dylid trefnu cefnogaeth briodol ymlaen llaw.
- Darparwch gyfarwyddiadau llafar yn ogystal ag ysgrifenedig.

## Adborth

- Rhowch adborth mewn fformat ysgrifenedig hygyrch.
- Cynhwyswch bwyntiau cadarnhaol yn ogystal â marc (dros dro). Mae ychwanegu gradd yn ddefnyddiol gan fod hwn yn feincnod sy'n glir i fyfyrwyr.
- Osgowch farcio mewn coch a gwyrdd oherwydd efallai na fydd defnyddwyr sy'n lliwddall yn gallu gwahaniaethu rhyngddynt.

Mae *data o* Gynlluniau Cefnogi Dysgu Personol *yn dangos bod gan gyfartaledd o 85% yr addasiadau uchod yn eu cynlluniau cefnogi.*

# Argymhellion Addasu yn ôl Anabledd

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu argymhellion addasiadau cyffredin a allai gefnogi myfyrwyr ag anableddau penodol. Bwriedir i'r enghreifftiau hyn fod yn ganllaw i ymarfer cynhwysol da a dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r anghenion unigol a amlinellir yng Nghynllun Cefnogi Dysgu Personol myfyriwr, neu lle nad oes y cyfryw Gynllun a bod angen addasiadau rhagweladwy.

Ni fydd angen pob addasiad ar gyfer pob myfyriwr, a bydd profiadau unigol o fewn pob grŵp anabledd yn amrywio. Y ffordd orau o roi cefnogaeth effeithiol yw trwy gyfathrebu cynnar, barn broffesiynol, a deialog barhaus rhwng staff a myfyrwyr.

Lle argymhellir addasiadau asesu, mae'n hanfodol bod unrhyw drefniadau neu fformatau amgen yn cynnal yr un deilliannau dysgu (cymwyseddau craidd) a safonau academaidd â'r dasg wreiddiol. Dylai addasiadau gael gwared ar rwystrau i ddangos dysgu, nid newid yr hyn sy'n cael ei asesu.

## Myfyrwyr gyda Gwahaniaethau Dysgu Penodol

Er y gellir defnyddio'r term 'gwahaniaethau dysgu penodol (SpLD)' fel diagnosis ar ei ben ei hun, fe'i defnyddir yn gyffredin fel term ymbarél i gyfeirio at Ddyslecsia, Dyspracsia, Dyscalcwlia, Dysgraffia, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio. Mae gan fyfyrwyr ag Anawsterau Dysgu Penodol ddeallusrwydd cyfartalog neu uwch na'r cyfartaledd, ond gallent brosesu gwybodaeth yn wahanol. Gall hyn effeithio ar sgiliau fel darllen, ysgrifennu, sillafu, rhifedd, trefnu, y cof, dilyniannu, neu gyflymder prosesu. O ganlyniad, gall myfyrwyr gymryd mwy o amser i ddarllen neu gynhyrchu gwaith ysgrifenedig, ei chael hi'n anodd trefnu eu meddyliau neu reoli tasgau cymhleth, a phrofi heriau gyda chymryd nodiadau, rheoli amser, neu weithio dan bwysau. Bydd gan bob myfyriwr broffil unigryw o gryfderau a heriau, a bydd anghenion cefnogaeth unigol yn amrywio yn unol â hynny.

Dylai darlithwyr academaidd ymdrechu i wneud y canlynol:

- Cynigiwch fwy o le ar gyfer deialog - h.y. dylai darlithwyr geisio cynnig cyfleoedd un-i-un i fyfyrwyr drafod eu hanghenion.
- Darparwch gopïau o gyflwyniadau PowerPoint, taflenni taflunwyr dros ysgwydd, taflenni, nodiadau darlith, a dogfennau trafod, lle bo modd, ymlaen llaw mewn fformat hygyrch electronig.
- Labelwch ddiagramau mewn taflenni. Os nad yw hyn yn bosibl, gwnewch yn siŵr bod diagramau wedi'u labelu ar gael wedyn.
- Ystyriwch gyflwyno sleidiau PowerPoint gyda chefndir lliw pastel gyda digon o gyferbynnau i leihau straen gweledol.
- Rhifwch sleidiau PowerPoint i gynorthwyo wrth gyfeirio atynt wrth gymryd nodiadau.
- Nodwch wybodaeth hanfodol.
- Ystyriwch gefnogi myfyrwyr i ddefnyddio technolegau llais i destun/testun i lais mewn asesiad.
- Rhowch ganiatâd i gymryd nodiadau gan ddefnyddio gliniadur.

- Cyflwynwch eirfa newydd mewn cyd-destun gyda chysyniadau wedi'u hegluro.
- Rhowch grynodeb ar ddechrau'r darlithoedd a chyfeirio yn effeithiol trwy gydol y ddarlith. Ar ddiwedd pob darlith, adolygwch y prif bwyntiau.
- Rhowch ddigon o amser i'r myfyriwr gymathu neu brosesu cwestiynau a gwneud nodiadau neu roi syniadau mewn trefn cyn gofyn iddynt ymateb i gwestiwn. Gall ateb ar y fan a'r lle fod yn heriol gan y gall roi baich ar gof gweithredol, dilyniannu, cyflymder prosesu a chanolbwyntio myfyriwr â Gwahaniaethau Dysgu Penodol.
- Torrwch dasgau hir yn gamau.
- Osgowch ofyn i'r myfyriwr ddarllen yn uchel o destunau nas gwelwyd o'r blaen heb gytundeb ymlaen llaw.
- Darparwch gyfarwyddiadau, prosesau a phrotocolau ar ffurf ysgrifenedig a llafar.

| Mathau o Asesiadau | Mathau o Asesiadau Amgen |
|---|---|
| Arholiadau llyfr caeedig | • Asesiadau ysgrifenedig amgen gydag amser estynedig neu strwythur i'w wneud adref (lleihau pwysau amser)<br>• Dadansoddiad astudiaeth achos |
| | • Cyflwyniadau amlfodd (fideo, sain, ffeithluniau) sy'n caniatáu ffurflenni asesu sy'n defnyddio llai o destun |
| Aseiniad/projectau mawr | • Projectau wedi'u sgaffaldio - rhannu tasgau yn gydrannau llai<br>• Dyddlyfrau adfyfyriol (yn cefnogi asesu parhaus yn hytrach na digwyddiadau unigol lle mae llawer yn y fantol) |

## Myfyrwyr â Chyflwr Sbectrwm Awtistig (CSA)

Mae awtistiaeth yn effeithio ar y profiad y mae pobl yn ei gael o'r byd a sut maent yn cyfathrebu. Fe'i gelwir yn sbectrwm oherwydd bod profiadau pobl awtistig yn amrywiol. Mae gan bob myfyriwr set unigol o sgiliau a phriodoleddau. Gall awtistiaeth effeithio ar sut mae myfyrwyr yn prosesu gwybodaeth, yn rhyngweithio'n gymdeithasol, yn dehongli cyfathrebu amwys, neu'n deall cyfathrebu di-eiriau.

Dylai darlithwyr academaidd ymdrechu i wneud y canlynol:

- Cadwch amserlenni a lleoliadau yn gyson.
- Rhowch derfynau amser ymhell ymlaen llaw.
- Disgrifiwch y tasgau'n glir ac yn benodol.
- Darparwch wybodaeth am yr hyn i'w ddisgwyl ar ddechrau'r sesiwn, a sut i ryngweithio pan ddefnyddir gwahanol offer dysgu.
- Byddwch yn ymwybodol o fyfyrwyr nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn siarad yn ystod darlithoedd.
- Cynigiwch ddewis a yw'r camera ymlaen neu i ffwrdd.
- Gosodwch reolau sylfaenol a rolau ar gyfer gweithgareddau gwaith grŵp.

- Rhowch adborth manwl a hygyrch ar waith myfyrwyr. Cynhwyswch bwyntiau da, meysydd i'w gwella a chyfeiriad at farc. Mae adborth ysgrifenedig yn ddefnyddiol gan y gall myfyrwyr gyfeirio ato yn y dyfodol.

| Mathau o Asesiadau | Mathau o Asesiadau Amgen |
|---|---|
| Cyflwyniadau ac Asesiadau Llafar | • Gwaith cwrs ysgrifenedig (pan nad yw cyflwyno ar lafar yn ymarferol)<br>• Cyflwyniadau un-i-un yn lle cyflwyniad grŵp (llai o alw cymdeithasol)<br>• Cyflwyniadau wedi'u recordio ymlaen llaw (rheolaeth dros yr amgylchedd synhwyraidd a pherfformio) |
| Asesiadau wedi'u hamseru | • Asesiadau i'w gwneud adref neu asesiadau llyfr agored i leihau pwysau a chaniatáu amser prosesu |

## Myfyrwyr â chyflwr iechyd meddwl fel iselder ysbryd neu orbryder

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn profi cyfnodau o straen ac anhawster personol ar ryw adeg yn eu bywydau ac mae 1 o bob 4 o bobl yn cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl. Mae'r term 'cyflyrau iechyd meddwl' yn derm cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio ystod o ddiagnosau a gofynion cefnogaeth, a all fod yn hirdymor ac a all amrywio. Mae'r stigma y mae pobl â chyflyrau o'r fath yn ei brofi yn sylweddol ac mae'n debygol o effeithio ar eu gallu i drafod eu cyflyrau gyda'r rhai o'u cwmpas.

Dylai darlithwyr academaidd ymdrechu i wneud y canlynol:

- Cadw mewn cysylltiad â myfyrwyr a monitro eu hymgysylltiad; gan ymyrryd yn brydlon os bydd unrhyw anawsterau a nodi dirywiad cyflym a galluogi strategaethau ar gyfer cefnogaeth.
- Paratoad a chefnogaeth ychwanegol ar gyfer gwaith maes, cyflwyniadau i leihau straen a rhagweld rhwystrau pellach mewn modd amserol.
- Cymryd asesiadau mewn mannau tawel i osgoi pethau'n tynnu eu sylw a phwysau gan gyfoedion.
- Rheolaeth gadarn o drafodaethau grŵp i reoli unrhyw sgyrsiau anodd. Mae hyn yn helpu i leihau pryder y mae'r myfyriwr yn ei deimlo ynglŷn â chymryd rhan.
- Rhoi adborth ysgrifenedig, gan gynnwys pwyntiau da ac agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach.

| Mathau o Asesiadau | Mathau o Asesiadau Amgen |
|---|---|
| Arholiadau neu Gyflwyniadau yn y cnawd | • Gwaith cwrs ysgrifenedig neu aseiniadau astudiaeth achos<br>• Cyflwyniadau wedi'u recordio ymlaen llaw neu un-i-un |
| Asesiadau wedi'u hamseru | • Amserlen hyblyg neu asesiadau i'w gwneud adref i leihau sbardunau straen |

## Myfyrwyr ag amhariad ar eu clyw

Gall myfyrwyr sy'n fyddar neu sydd ag amhariad ar eu clyw fod â chymhorthion clyw neu byddant yn defnyddio'r rheini yn ogystal â darllen gwefusau i gyfathrebu. Gall myfyrwyr sy'n defnyddio cymhorthion clyw hefyd fod yn defnyddio dolenni sain i gael mynediad at sain, er enghraifft, mewn darlithfeydd. Mae dolenni sain a systemau radio personol yn ddulliau cyfathrebu defnyddiol er bod nifer o ffactorau'n effeithio ar eu defnydd.

Dylai darlithwyr academaidd ymdrechu i wneud y canlynol:

- Ystyriwch yr amgylchedd a'r goleuadau, lliw a chyferbyniad, sŵn cefndir.
- Gwnewch yn siŵr bod eich wyneb yn weladwy'n glir i fyfyrwyr sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau.
- Defnyddiwch feicroffon i alluogi dolenni sain.
- Os defnyddir teledu neu ddeunyddiau gweledol eraill, bydd angen isdeitlau.
- Os ydych chi'n defnyddio capsiynau awtomataidd, gwnewch yn siŵr bod hyn yn gywir. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer cyrsiau/modiwlau sy'n cynnwys jargon ac iaith dechnegol.
- Nodwch pryd mae'r pwnc yn newid mewn darlithoedd neu sesiynau addysgu eraill fel bod y myfyriwr sy'n darllen gwefusau'n deall i ddisgwyl geirfa newydd.
- Darparwch restr termau a/neu restrau geirfa gan ei bod hi'n anodd iawn darllen gwefusau gair nad yw'n hysbys.
- Mae adborth ysgrifenedig yn ddefnyddiol gan ei fod yn osgoi'r angen i'r myfyriwr gofnodi adborth wrth drafod materion perthnasol.

| Mathau o Asesiadau | Mathau o Asesiadau Amgen |
|---|---|
| Cyflwyniadau llafar | • Fformatau cyflwyno ysgrifenedig neu weledol (e.e. fideo ffeithlun gyda chapsiynau)<br>• Asesiadau i'w gwneud adref |

## Myfyrwyr ag amhariad ar eu golwg

Mae colli golwg yn cyfeirio at golli golwg na ellir ei gywiro gan ddefnyddio sbectol neu lensys cyffwrdd. Gallai hwn fod yn fyfyriwr sydd wedi'i gofrestru'n rhannol ddall, sy'n golygu bod lefel yr amhariad ar y golwg yn gymedrol. Neu wedi'i gofrestru'n ddall, sy'n golygu nam difrifol ar y golwg lle mae gweithgareddau sy'n dibynnu ar olwg yn dod yn amhosibl. Bydd myfyrwyr yn profi gwahanol raddau o golli golwg; efallai y bydd gan y mwyafrif rywfaint o olwg a all fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwahanol bethau i bob unigolyn.

Dylai darlithwyr academaidd ymdrechu i wneud y canlynol:

- Rhoi rhybudd o 24 awr o newid lleoliad, pryd bynnag y bo modd, er mwyn sicrhau y gall y myfyriwr ddod o hyd i'r lleoliad a threfnu cefnogaeth gan unigolyn os oes angen.
- Dylid darparu'r holl wybodaeth (megis adborth ysgrifenedig, adroddiadau goruchwylio) a'r holl ddeunyddiau perthnasol mewn fformat hygyrch.
- Dylid darparu’r holl sleidiau a deunyddiau sydd eu hangen cyn y darlithoedd.

- Dylid ystyried cyferbyniad lliw ar gyfer cyflwyniadau a graffiau fel bod myfyrwyr sydd ag amhariad ar eu golwg yn gallu cael mynediad.
- Dylid gwneud yn siŵr eich bod yn ddisgrifiadol ac yn benodol am y cynnwys sy'n cael ei gyflwyno.
- Cefnogwch fyfyrwyr i ddefnyddio technolegau llais i destun a thestun i lais mewn asesiad.

| **Mathau o Asesiadau** | **Mathau o Asesiadau Amgen** |
|---|---|
| Asesiadau sy'n gofyn am lawer iawn o ddarllen | • Asesiadau llafar, wedi'u cefnogi gan egwyddorion aml-fformat cynhwysol |
| Fformatau sydd â llawer o wybodaeth gweledol | • Cyflwyniadau digidol neu recordiadau sain |

## Arwyddion y gallai Myfyrwyr fod yn Dechrau Cael Anhawster

Yn ystod taith y myfyriwr, gall rhai myfyrwyr wynebu heriau a dechrau cael trafferth. Isod, mae rhai dangosyddion i'w cadw mewn cof a all ddatgelu bod myfyriwr yn cael trafferth ac angen cefnogaeth ychwanegol:

• Methu â gwneud gwaith erbyn terfynau amser / methu â chadw i fyny â'r llwyth gwaith

• Colli darlithoedd

• Ansawdd y gwaith a gyflwynir ddim yn cyrraedd y safon neu farciau'n gostwng

• Myfyriwr sydd wedi ymddieithrio neu sy'n ei chael hi'n anodd cymryd rhan mewn darlithoedd

• Yn rhoi'r gorau i gyfathrebu â'r tiwtor / darlithwyr

Cyfeiriwch fyfyrwyr yr ydych yn pryderu amdanynt at y Gwasanaeth Lles, gan amlinellu eich pryderon fel y gall y cynghorydd priodol o'r tîm gysylltu â nhw a chynnig cyngor ac arweiniad.

## Nodyn i Gloi

Nid yw addysgu cynhwysol yn ymwneud â diwallu pob angen yn berffaith, ond mae'n ymwneud â chreu amgylcheddau dysgu sy'n hyblyg, yn rhagweladwy ac yn ymatebol. Mae cyfathrebu rheolaidd â myfyrwyr, cefnogaeth gynnar, a chydweithio â gwasanaethau'r Brifysgol yn allweddol i nodi rhwystrau a gwneud addasiadau effeithiol. Lle mae ansicrwydd, anogir staff i geisio cyngor yn hytrach na gwneud tybiaethau.

Am gefnogaeth ac arweiniad cysylltwch â Thiwtor Anabledd eich ysgol neu'r Tîm Llesiant a Chynwysoldeb gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

# Adnoddau Defnyddiol a Chyfeiriadau at Ddogfennau

Disability Rights UK
https://www.disabilityrightsuk.org/resources/adjustments-disabled-students-and-apprentices?srsltid=AfmBOorZeq3vAb1ISHiKqNyCwHamMAxAH7uIQMj_ZKRXAcohHjv2k23b#_Toc119421693

Uned Her Cydraddoldeb: Canllawiau ar safonau cymhwysedd ac addasiadau rhesymol:
http://www.ecu.ac.uk/guidance-resources/student-recruitment-retention-attainment/studentretention/inclusive-learning-teaching/competence-standards-reasonable-adjustments/

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:
Canllawiau Technegol Deddf Cydraddoldeb 2010 ar Addysg Bellach ac Uwch:
https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/equality-act-2010-technicalguidance-further-and-higher-education

Beth mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg – addysg bellach ac uwch:
https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/what-equality-law-means-youeducation-provider-%E2%80%93-further-and-higher-education

Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC): Iechyd, anabledd a dod yn weithiwr gofal iechyd a gofal proffesiynol:
http://www.hcpc-uk.org/assets/documents/10004D79Healthdisabilityandbecomingahealthandcareprofessional.pdf

Addysgu a Dysgu Cynhwysol mewn Addysg Uwch fel llwybr at Ragoriaeth: adroddiad gan Grŵp Arweinyddiaeth y Sector Myfyrwyr Anabl: https://www.gov.uk/government/publications/inclusive-teachingand-learning-in-higher-education

SCOPE: Model cymdeithasol o anabledd
http://www.scope.org.uk/about-us/our-brand/social-model-of-disability

Canllawiau Cyllid Myfyrwyr Cymru ar y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl:
http://www.studentfinancewales.co.uk/practitioners/policy-information/guidance-chapters.aspx#.WaAgNXn2ZA2

Canllawiau Cymdeithas y Deyrnas Unedig ar gyfer Fformatau Hygyrch ar ddogfennau print clir a bras:
https://www.ukaaf.org/large-print/

Cwestiynau Cyffredin Myfyrwyr Rhyngwladol ag Anableddau UKCISA ar gyfer Swyddogion Rhyngwladol:

https://institutions.ukcisa.org.uk/Info-for-universities-colleges--schools/Resources/Resources-forstaff/Students-with-disabilities-good-practice/International-Students-with-Disabilities-FAQs-for-International-Officers/